**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1710 (Cy. 116 )

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru)2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Ffurflen a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) 1997 ("Rheoliadau 1997") a'r Ffurflen a nodir yn yr Atodlen i Reoliadiau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) (Ffurflen Gais Gymraeg) 1999 ("Rheoliadau 1999").

Mae Rheoliadau Grantiau Adleoli 1997 (O.S. 1997/2764) yn cymhwyso Rheoliadau Grantiau Adleoli Tai 1996 (O.S. 1996/2890) fel y maent yn effeithiol o bryd i'w gilydd, gyda'r addasiadau a ragnodwyd. Mae diwygiadau i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/973(Cy.43) i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, wedi peri bod angen diwygio Rheoliadau 1997 a Rheoliadau 1999.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1710 (W. 116 )

# HOUSING, WALES

## The Relocation Grants (Forms of Application) (Amendment) (Wales) Regulations 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

These Regulations amend the Form set out in the Schedule to the Relocation Grants (Form of Application) Regulations 1997 ("the 1997 Regulations") and the Form set out in the Schedule to the Relocation Grants (Form of Application) (Welsh Form of Application) Regulations 1999 ("the 1999 Regulations").

The Relocation Grants Regulations 1997 (S.I. 1997/2764), apply the Housing Renewal Grants Regulations 1996 (S.I. 1996/2890) as they have effect from time to time, with the modifications prescribed. Amendments to the Housing Renewal Grants Regulations 1996 by the Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2000 (S.I. 2000/973(W.43) in so far as they apply in Wales, have accordingly necessitated amendments to the 1997 Regulations and the 1999 Regulations.

OFFERYNNAUSTATUDOL

# 2000 Rhif 1710 (Cy.116)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2000

*Wedi'u gwneud* *20 Mehefin 2000*

*Yn dod i rym* *yn unol â Rheoliad 1(1)*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 132(4) a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996**(a)** ac a freinir bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru**(b)**:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.-**(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym 14 diwrnod ar ol y dyddiad y'u gwneir.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygiadau**

**2.-**(1) Diwygir y ffurflen a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) 1997**(c)** fel a bennir yn nhestun Saesneg yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(2) Diwygir y ffurflen a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) (Ffurflen Gais Gymraeg) 1999**(ch)** fel a bennir yn nhestun

(a) 1996 p.53; gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pŵer o dan yr adrannau hyn mewn perthynas â Lloegr yn unig.

(b) Gweler Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1997/2847; diwygiwyd gan O.S. 1998/810, O.S. 1999/1541 ac O.S. 1999/2625.

(ch) O.S. 1999/2315; diwygiwyd gan O.S. 1999/3469 (Cy.55)

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1710 (W.116)

# HOUSING, WALES

## The Relocation Grants (Forms of Application) (Amendment) (Wales) Regulations 2000

*Made* *20th June 2000*

*Coming into force in accordance with Regulation 1 (1)*

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to the Secretary of State by sections 132(4) and 146(1) and (2) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996**(a)** which are now vested in the National Assembly so far as exercisable in Wales**(b)**:

**Citation, commencement and application**

**1.-**(1) These Regulations may be cited as the Relocation Grants (Forms of Application) (Amendment) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force 14 days after the day on which they are made.

(2) These Regulations apply to Wales only.

**Amendments**

**2.-**(1) The form set out in the Schedule to the Relocation Grants (Form of Application) Regulations 1997**(c)** is amended as specified in the English text of the Schedule to these Regulations.

(2) The form set out in the Schedule to the Relocation Grants (Form of Application) (Welsh Form of Application) Regulations 1999**(d)** is amended as specified in the Welsh text of the Schedule to these

(a) 1996 c.53; the Secretary of State can exercise the power under these sections only in relation to England.

(b) See Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1997/2847; amended by S.I. 1998/810, S.I. 1999/1541 and S.I. 1999/2625.

(d) S.I. 1999/2315; amended by S.I. 1999/3469 (W.55)

Cymraeg yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

3. Ni fydd y Rheoliadau hyn yn cael effaith mewn perthynas â cheisiadau am grant a wnaed cyn 3 Ebrill 2000.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(a)**.

20 Mehefin 2000

*D Elis Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Regulations.

3. These Regulations shall not have effect in relation to applications for a grant made before 3rd April 2000.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(a)**.

20th June 2000

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

**ATODLEN** Rheoliad 2

**DIWYGIADAU I'R FFURFLEN SY'N DWYN Y TEITL "CAIS AM GRANT ADLEOLI"**

1.Ar ôl cwestiwn 4.23, mewnosodwch-

**4.23A** Os ydych chi, neu'ch partner, ar hyn o bryd mewn cyflogaeth am dâl, ydych chi neu'ch parter yn cael yr isafswm cyflog gwladol am bob swydd a ddelir?

| Chi | | Eich Partner | |
|---|---|---|---|
| Ydwyf | ❑ | Ydyw | ❑ |
| Nac Ydwyf | ❑ | Nac Ydyw | ❑ |

**4.23B** Os ydych wedi ateb "Nac ydwyf/Nac ydyw" i gwestiwn 4.23A, a oes gennych chi neu'ch partner yr hawl i gael yr isafswm cyflog gwladol am bob swydd?

**Nodyn 34A**

| Chi | | Eich Partner | |
|---|---|---|---|
| Oes | ❑ | Oes | ❑ |
| Nac Oes | ❑ | Nac Oes ❑ | |

**4.23C** Os ydych wedi ateb "Nac oes" i gwestiwn 4.23B, dywedwch pam nad oes gennych chi neu'ch partner hawl i gael yr isafswm cyflog gwladol am bob swydd a ddelir: **Nodyn 34A**

.......................................................
........................................................
....................................................".

**2**. Yng nghwestiwn 4.31

-(**a**) ar ôl "Ysgoloriaethau ac addysgedau eraill etc: £...... £......",

mewnosodwch "**Nodyn 46B**";

(**b**) ar ôl "Benthyciad myfyrwyr: £.......", mewnosodwch "**Nodyn 46C**"

**3**. Yng nghwestiwn 4.34 yn lle "**Nodiadau 50 a 50A**" rhowch "**Nodiadau 50, 50A a 50B**".

**4**. Yn y pennawd o flaen cwestiwn 4.36, ar ôl "**grantiau myfyrwyr**" mewnosodwch "**neu fenthyciadau myfyrwyr**", ac yng nghwestiwn 4.36, ar ôl "grant myfyriwr" mewnosodwch "neu fenthyciad myfyriwr".

**5**. Ar ddiwedd nodyn 30, ychwanegwch:

"Dylai tâl gros gynnwys hefyd daleb ddi-arian a gymerwyd i ystyriaeth wrth gyfrifo'ch enillion yn unol â rheoliad 18(22) i (25) o Reoliadau Nawdd Cymdeithasol (Cyfraniadau) 1979." **(a)**.

(a) O.S. 1979/591; yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1999/561.

**SCHEDULE** Regulation 2

**AMENDMENTS TO THE FORM ENTITLED "APPLICATION FOR RELOCATION GRANT"**

1. After question 4.23, insert -

**4.23A** If you, or your partner, are currently in paid employment, are you, or your partner, receiving the national minimum wage for each job held?

| You | | Your Partner | |
|---|---|---|---|
| Yes | ❑ | Yes | ❑ |
| No | ❑ | No | ❑ |

**4.23B** If you answered "No" to question 4.23A, are you or is your partner, entitled to receive the national minimum wage for each job held?

**Note 34A**

| You | | Your Partner | |
|---|---|---|---|
| Yes | ❑ | Yes | ❑ |
| No | ❑ | No | ❑ |

**4.23C** If you answered "No" to question 4.23B, please state why you or your partner is not entitled to receive the national minimum wage for each job held:

**Note 34A**

………………………………………..
………………………………………..
……………………………………. .".

**2**. In question 4.31

-(**a**) after "Other scholarships and bursaries etc: £…. ….. £…………",

insert "**Note 46B**";

(**b**) after "Student loan: £…. ….. £ … . . " , insert "**Note 46C**".

**3** In question 4.34, for "**Notes 50 and 50A**" substitute "**Notes 50, 50A and 50B".**

**4**. In the heading before question 4.36, after "**student grants**" insert "**or student loans**" and in question 4.36, after "student grant" insert "or student loan".

**5**. At the end of note 30, add:

"Gross pay should also include a non-cash voucher which has been taken into account in calculating your earning in accordance with regulation 18(22) to (25) of the Social Security (Contributions) Regulations 1979." (**a**).

(a) S.I. 1979/591; the relevant amending instrument is S.I. 1999/561.

**6**. Ar ddiwedd nodiadau 31 a 32 ychwanegwch -

"Byddwch cystal â chynnwys swm eich pensiwn p'un a delir ef i chi neu i berson arall. Nid oes rhaid i chi gynnwys swm eich pensiwn lle telir y cyfan ohono i'ch ymddiriedolwr mewn methdaliad neu i rywun arall ar ran eich credydwyr ar yr amod nad ydych chi neu aelod o'ch teulu yn cael unrhyw incwm ar wahân i'r taliad hwnnw.".

**7**.Ar ôl nodyn 34, mewnosodwch -

"34A Os nad ydych chi neu'ch partner yn gwybod a oes gennych hawl i gael y lleiafswm cyflog gwladol am unrhyw swydd, llenwch weddill y ffurflen a gofyn wedyn i Adran Dai y Cyngor pan fyddwch yn anfon eich cais i mewn.".

**8**.Yn nodyn 45, ar ôl "Groes George" mewnosodwch-

"-lwfans cynhaliaeth addysgol sy'n daladwy yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 518 o Ddeddf Addysg 1996**(a)** (talu costau ysgol; rhoi ysgoloriaethau etc.) neu unrhyw swm mewn perthynas â chwrs astudiaeth a ddilynir gan blentyn neu berson ifanc sy'n daladwy yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 518 o Ddeddf Addysg 1996, adran 49 o Ddeddf Addysg (Yr Alban) 1980**(b)** (pŵer i gynorthwyo personau i fanteisio ar gyfleusterau addysgol) neu adran 12(2)(c) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (Yr Alban) 1992**(c)** (darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr).".

**9**.Ar ôl nodyn 46A, mewnosodwch -

**"46B**. Peidiwch â chynnwys dyfarniad chwaraeon ac eithrio i'r graddau iddo gael ei wneud ar gyfer talu eich costau, neu gostau eich teulu, ar gyfer bwyd, dillad neu esgidiau cyffredin, tanwydd neu rent cartref, neu ar gyfer unrhyw dreth gyngor neu daliadau dŵr yr ydych chi neu y mae aelod arall o'ch teulu yn atebol amdanynt.

Nid oes angen i chi gynnwys unrhyw daliadau am fitaminau, mwynau neu unrhyw ychwanegiadau deietegol arbennig a fwriedir i wella'ch perfformiad yn y gamp y cafodd y dyfarniad ei wneud ar ei chyfer.

Nid oes angen ychwaith i chi gynnwys unrhyw daliadau a wnaed am wisg ysgol neu ddillad neu esgidiau sydd i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau chwaraeon yn unig.

**46C** Dylech roi mwyafswm y benthyciad myfyriwr y gallech fod wedi'i gael, lle na chawsoch fenthyciad myfyriwr neu lle na chawsoch y mwyafswm.".

(a) 1996 p.56; amnewidiwyd adran 518 gan adran 129 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).

(b) 1980 p.44.

(c) 1992 p.37.

**6**.At the end of notes 31 and 32 add -

"Please include the amount of your pension whether it is paid to you or to another person. You do not have to include the amount of your pension, where all of it is paid to your trustee in bankruptcy or to someone else on behalf of your creditors provided that you and any member of your family do not have any income apart from that payment.".

**7**.After note 34, insert -

"34A. If you or your partner do not know whether you are entitled to receive the national minimum wage for any job, please complete the rest of the form and then ask the Housing Department of the Council when you send in your application.".

**8**.In note 45, after "George Cross" insert -

"- educational maintenance allowance payable by virtue of regulations made under section 518 of the Education Act 1996**(a)** (payment of school expenses; grant of scholarships etc.) or any other sum in respect of a course of study attended by a child or young person payable by virtue of regulations made under section 518 of the Education Act 1996, section 49 of the Education (Scotland) Act 1980**(b)** (power to assist persons to take advantage of educational facilities) or section 12(2)(c) of the Further and Higher Education (Scotland) Act 1992**(c)** (provision of financial assistance to students).".

**9**.After note 46A, insert -

**"46B**. Please do not include a sports award except to the extent that it has been made to pay for your expenses, or those of your family, for food, ordinary clothing or footwear, household fuel or rent, or for any council tax or water charges for which you or another member of your family is liable.

You do not need to include any payments for vitamins, minerals or other special dietary supplements intended to enhance your performance in the sport for which the award was made.

You also do not need to include any payments made for school uniforms or clothing or footwear to be used solely for sporting activities.

**46C**. You should give the maximum student loan which you could have acquired, where you did not obtain a student loan or you did not obtain the maximum amount.".

(a) 1996 c.56; section 518 was substituted by section 129 of the School Standards and Framework Act 1998 (c.31).

(b) 1980 c.44.

(c) 1992 c.37.

**10**. Ar ôl nodyn 50A, mewnosodwch -

"50B Peidiwch â chynnwys dyfarniad chwaraeon a gawsoch lai na 26 wythnos yn ôl ac eithrio i'r graddau ei fod wedi'i wneud i dalu eich costau, neu gostau eich teulu, am fwyd, dillad neu esgidiau cyffredin, tanwydd neu rent cartref, neu unrhyw dreth gyngor neu daliadau dŵr yr ydych chi neu y mae aelod arall o'ch teulu yn atebol amdanynt.

Nid oes angen i chi gynnwys unrhyw daliadau am fitaminau, mwynau neu unrhyw ychwanegiadau deietegol arbennig a fwriedir i wella'ch perfformiad yn y gamp y cafodd y dyfarniad ei wneud ar ei chyfer.

Nid oes angen ychwaith i chi gynnwys unrhyw daliadau a wnaed am wisg ysgol neu ddillad neu esgidiau sydd i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau chwaraeon yn unig.".

**11**. Yn nodyn 52, ar ôl "grant y myfyriwr" mewnosodwch "neu fenthyciad y myfyriwr".

**10**. After note 50A, insert -

"50B. Please do not include a sports award which you have received less than 26 weeks ago except to the extent that it has been made to pay for your expenses, or those of your family, for food, ordinary clothing or footwear, household fuel or rent, or for any council tax or water charges for which you or another member of your family is liable.

You do not need to include any payments for vitamins, minerals or other special dietary supplements intended to enhance your performance in the sport for which the award was made.

You also do not need to include any payments made for school uniforms or clothing or footwear to be used solely for sporting activities.".

**11**. In note 52, after "grant" insert "or student's loan".

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2000 Rhif 1710 (Cy. 116 )

## TAI, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru)2000

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2000 No. 1710 (W. 116 )

## HOUSING, WALES

The Relocation Grants (Forms of Application) (Amendment) (Wales) Regulations 2000

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090114-2

**£2.00**

W/55/08/00 ON

9 780110 901145